

## CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 3

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**  
Children, Young People and Education Committee

### Vaughan Gething AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

8 Awst 2019

Annwyl Weinidogion,

### Gwaith dilynol ar ymchwiliad y Pwyllgor i Iechyd Meddwl ac Emosiynol Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru – Cadernid Meddwl

Rydym yn ysgrifennu atoch yn dilyn y sesiynau craffu cyhoeddus a gynhaliwyd ar [20 Mehefin 2019](#) a [26 Mehefin 2019](#) i fonitro cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad dan y teitl [Cadernid Meddwl](#) ym mis Ebrill 2018. Rydym yn ddiolchgar i chi, ac i Gadeirydd y Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, am eich cydweithrediad wrth gyflawni'r gwaith dilynol pwysig hwn flwyddyn yn dilyn y [ddadl yn y cyfarfod llawn](#) ar ein hadroddiad.

Rydym yn cydnabod bod cynnydd wedi ei wneud mewn rhai meysydd, ond rydym yn dal o'r farn bod angen i gyflymder y gwelliannau gynyddu. Rydym yn croesawu'r datblygiadau a wnaed hyd yma, ac yn cydnabod bod sefydlu'r Cyd-Grŵp Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen – yr wyf yn mynd i'w gyfarfodydd fel arsylwr ar ran y Pwyllgor – wedi helpu i symud cynnydd i'r cyfeiriad cywir mewn perthynas â datblygu ymagwedd ysgol gyfan. Fodd bynnag, credwn bod angen rhagor o ymdrech i gyflawni'r newid sylweddol mewn cymorth iechyd meddwl ac emosiynol i blant a phobl ifanc rydym wedi galw amdano. Mae'r [dystiolaeth](#) sy'n sail i'r casgliadau a'r argymhellion a amlinellir yn y llythyr hwn i gyd ar gael ar ein tudalennau gwe.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
SeneddPPIA@cynulliad.cymru  
[www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA](http://www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA)  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddCYPE@assembly.wales  
[www.assembly.wales/SeneddCYPE](http://www.assembly.wales/SeneddCYPE)  
0300 200 6565

## 1. Prif argymhelliad

Rydym yn bryderus iawn bod y rhaglen gwella gwasanaethau dan arweiniad y GIG, Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, yn dod i ben ym mis Hydref 2019 heb i drefniadau etifeddol digonol fod ar waith. Ni chawsom y sicrwydd a geisïom – gan Lywodraeth Cymru, na'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc – bod trefniadau digonol a chadarn ar waith i gyflawni a chynnal y gwelliannau sydd eu hangen ar frys o ran cymorth iechyd meddwl ac emosiynol i blant a pobl ifanc ar draws pob ardal yng Nghymru.

**Argymhelliad A:** Mynnodd yr argymhelliad allweddol yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl y dylai llesiant emosiynol ac iechyd meddwl ein plant a'n pobl ifanc fod yn flaenoriaeth genedlaethol. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn argymhell y dylid ymestyn y Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i helpu i sicrhau gwelliannau cynaliadwy mewn mynediad at wasanaethau cymorth o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd drwy Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), yn ogystal â chefnogi'r ymagwedd ysgol gyfan. Ein barn ni yw y dylid ymestyn y Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i gyd-fynd â diwedd *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2012–22*, strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a llesiant.

### Credwn

- mai parhau â'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yw'r dewis gorau o ran gwerth am arian a chanlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd;
- mae angen i'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ganolbwyntio'n fanylach ar waith amlasiantaethol, er mwyn sicrhau y cyflawnir gwelliannau i'r system gyfan;
- mae angen i'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ategu'r gwaith o ddatblygu ymagweddau lleol ac ymgorffori iechyd meddwl a llesiant emosiynol ar draws pob ardal yng Nghymru.

## 2. Ymagwedd Ysgol Gyfan

Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed, wedi ei yrru gan y Cyd-Grŵp Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen, ar yr ymagwedd ysgol gyfan.

Rydym yn falch bod cyllid ar gael i ddatblygu modiwlau ychwanegol ar sut dylai athrawon gynorthwyo ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol disgyblion, ac rydym yn



croesawu'r ymrwymiad a roddwyd i ni o ran sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y broses achredu nesaf ar gyfer addysg athrawon.

Rydym hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc **wedi eu hyfforddi'n briodol mewn llesiant emosiynol ac iechyd meddwl**. Fodd bynnag, credwn y dylid cynnwys hyfforddiant o'r fath ar sail orfodol mewn Addysg Gychwynol Athrawon ar frys, a bod rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cael ei datblygu ar gyfer staff addysgu presennol, **ac y dylid bwrw ymlaen â hyn yn fuan iawn**.

**Argymhelliad B: Er mwyn sicrhau bod gan holl staff ysgolion ddealltwriaeth ddigonol o lesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu – fel mater o flaenoriaeth – rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff newydd a phresennol ysgolion.**

Rydym o'r un farn â'r Gweinidog Addysg fod y **cwricwlwm newydd** yn 'gyfle gwych i wreiddio iechyd a llesiant o ddifrif, yn ei ystyr ehangaf, yng ngwaith ysgolion, gan ei wneud yn gydradd â'r holl feysydd dysgu a phrofiad eraill sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm'.<sup>1</sup> Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd bod digon o aliniad rhwng y cwricwlwm a mentrau ynghylch llesiant emosiynol ac iechyd meddwl. Ein bwriad yw archwilio'r mater hwn ymhellach gyda'r Gweinidog Addysg yn ystod ein sesiwn graffu gyhoeddus ar y cwricwlwm drafft ym mis Medi 2019.

Rydym eisiau bod yn dawel ein meddwl y gellir cyflawni un o ddaliadau canolog ein hadroddiad Cadernid Meddwl – mai llesiant emosiynol, cydnerthedd ac iechyd meddwl da yw'r sylfeini allweddol ar gyfer dysgu llwyddiannus – drwy gynnwys llesiant emosiynol ac iechyd meddwl fel un o'r chwe Maes Profiad Dysgu a'r datganiadau 'beth sy'n bwysig'.

Rydym hefyd eisiau gweld momentwm yn cael ei gynnal, er mwyn sicrhau bod y **fframwaith weithredu i ysgolion** — a fydd yn darparu arweiniad a chymorth i ysgolion ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol – yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r lluo o fentrau er mwyn llywio ymagwedd genedlaethol ar gyfer ysgolion, ac

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 42\], 20 Mehefin 2019](#).



rydym yn cydnabod bod datblygu canllawiau yn waith sy'n mynd rhagddo. Hoffem weld y fframwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n fuan.

Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn falch o glywed y bydd y fframwaith gweithredu ar gyfer ysgolion yn cynnwys adran benodol ar **hunanladdiad a hunan-niweidio**. Mae cyhoeddi'r canllawiau i ysgolion ym mis Medi 2019 ar siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio yn gam sylweddol ymlaen. Mae'n gam i'r cyfeiriad cywir, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi cynlluniau ar waith yn awr i sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod addysg lleol yn rhoi'r canllawiau hyn ar waith.

**Argymhelliad C:** I ganlyn Argymhelliad 3 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith gweithredu ar gyfer ysgolion yn cael ei gyhoeddi yn ddi-oed, erbyn mis Rhagfyr 2019. Argymhellir hyn er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn gweithio yn unol â set sylfaenol o egwyddorion mewn perthynas â llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac yn cael eu cynorthwyo i wneud hyn. Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru fod yn gweithio gydag ysgolion i roi'r canllaw ar waith ac i ddechrau'r broses hunanarfarnu.

**Argymhelliad D:** I ganlyn Argymhelliad 16 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod addysg lleol yn gweithredu'n llawn y canllawiau ar hunanladdiad a hunan-niweidio sydd i'w cyflwyno ym mis Medi 2019.

Rydym hefyd eisiau ailadrodd ein barn gadarn bod yn rhaid i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion fod yn rhan o **ymagwedd system gyfan**. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn copi o'r adroddiad gwerthuso dros dro ar gynlluniau peilot mewngymorth ysgolion CAMHS ym mis Rhagfyr 2019.

### **3. Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol**

Yn unol â'r ymagwedd ysgol gyfan, rydym eisiau gweld Llywodraeth Cymru yn pennu disgwyliadau cliriach o ran sut dylai **gwasanaethau cwnsela ysgolion** gysylltu â Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol i sicrhau eu bod yn gysylltiedig. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhywfaint o waith i fapio digonolrwydd a gallu'r gwasanaeth cwnsela ysgolion, ond rydym eisiau i Lywodraeth Cymru fynegi'n well ei gweledigaeth ar gyfer cymorth lefel is ac ymyriadau cynnar.



Ni allwn orbwysleisio ymrwymiad y Pwyllgor hwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n anghymwys i gael gwasanaethau CAMHS yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig neu gymorth lefel is addas arall – yr hyn a elwir yn '**ganol coll**'. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn fel bod plant yn gallu cyrchu'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r gwaith hwn yn ei ddyddiau cynnar o hyd, ac nid yw hynny'n ddigon da.

**Argymhelliad E: Rydym eisiau gweld Llywodraeth Cymru yn gweithredu Argymhelliad 12 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl ar frys, gan gynnwys cyhoeddi manylion am sut mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r llif gwaith help cynnar a chymorth gwell i leihau'r '**canol coll**'. Rydym yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar y cynnydd erbyn diwedd mis Hydref 2019.**

Mae'r oedi cyn cyhoeddi **adolygiad diweddar Unedau Cyflenwi GIG o Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol** yn annerbyniol hefyd. Fel Pwyllgor, rydym wedi nodi'n glir ein bod yn disgwyl i argymhellion adolygiad yr Uned Gyflawni gael eu cyhoeddi'n llawn, yn ogystal â chynlluniau gwella Byrddau Iechyd, er mwyn sbarduno gwelliannau a monitro'r gwaith o weithredu'r cynlluniau. Rydym yn croesawu'r cadarnhad yn llythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Gorffennaf 2019 bod yr holl waith maes a dadansoddi data wedi ei gwblhau gan yr Uned Gyflawni erbyn hyn a bod byrddau iechyd naill ai wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig llawn neu adborth llafar gyda chrynodeb o ganfyddiadau, cyn derbyn adroddiad llawn.

**Argymhelliad F: I ganlyn Argymhellion 9 a 10 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, rydym yn disgwyl derbyn copi o adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, yn ogystal â chynlluniau gwella'r Byrddau Iechyd, yn ystod yr haf (2019). Bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon yn helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r cwestiwn a oes digon o gapasiti yn y system CAMHS gofal sylfaenol. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data mewn perthynas â pherfformiad Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol cyn gynted â phosibl.**



## 4. CAMHS Arbenigol

Yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod **llwybrau gofal cyson**, yn seiliedig ar **feini prawf atgyfeirio cenedlaethol**, yn cael eu gweithredu ledled Cymru. Ein barn ni o hyd yw mai dim ond pan all plant a phobl ifanc gael mynediad at wasanaethau amserol yn gyson, ledled y wlad, mewn modd parhaus, y gellir barnu cynnydd gwirioneddol mewn CAMHS arbenigol.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Gwella ym mis Mehefin 2016, gan nodi diffiniad clir a meini prawf atgyfeirio ar gyfer CAMHS arbenigol. Rydym yn croesawu gonestrwydd Llywodraeth Cymru wrth egluro na chyrhaeddwyd y lefel briodol o gynnydd eto; ac rydym yn nodi na allai Llywodraeth Cymru roi'r sicrwydd i ni fod Byrddau Iechyd yn defnyddio'r meini prawf atgyfeirio yn gyson.<sup>2</sup> Nodwn ymhellach eich cydnabyddiaeth, er bod data amseroedd aros wedi gwella, na chyflawnwyd perfformiad cynaliadwy eto.<sup>3</sup>

Rydym yn derbyn bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i weithredu cynlluniau gwella CAMHS i fynd i'r afael â'r materion hyn. Derbyniwn ymhellach fod angen rhagor o amser i sicrhau bod llwybrau cyson a meini prawf atgyfeirio cyson ar waith, ac i gynnal perfformiad amseroedd aros. Serch hynny, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddangos gwelliannau parhaus mewn CAMHS arbenigol, gan gynnwys comisiynu adolygiad o'r fframwaith o fewn y 6 i 12 mis nesaf.

Yn gysylltiedig â hyn, mae gennym bryderon penodol ynghylch **gofal mewn argyfwng a thu allan i oriau**, yn enwedig mewn perthynas â rhai Byrddau Iechyd sy'n dal i fethu darparu gwasanaethau 24/7. Rydym yn deall y bydd gofal mewn argyfwng yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau gwella Byrddau Iechyd, ond o ystyried gwendidau plant a phobl ifanc sydd 'mewn argyfwng', mae angen blaenoriaethu mynediad at gymorth 24/7. Nid yw'n dderbyniol na all Llywodraeth Cymru, dros flwyddyn ers ein hadroddiad, roi darlun cywir i ni o sefyllfa mynediad 24/7 ledled Cymru.

**Argymhelliad G:** I ganlyn Argymhelliad 15 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith brys i ddeall yn well sut a pham mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at gymorth mewn argyfwng/y tu allan i oriau. Mae angen gwelliannau pellach i ofal mewn argyfwng a thu allan i oriau

<sup>2</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 194\], 20 Mehefin 2019.](#)

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 173\], 20 Mehefin 2019.](#)



er mwyn helpu i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael gafael ar gymorth ar unwaith pan fyddant mewn trallod, ar unrhyw adeg. Mae'n rhaid i fynediad at gymorth mewn argyfwng iechyd meddwl fod yn gyson ledled Cymru, a allai olygu bod angen buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Byrddau Iechyd hynny sy'n methu ymestyn eu gwasanaethau ar hyn o bryd.

## 5. Gofal cleifion mewnol

Mae gennym bryderon difrifol mewn perthynas â **gofal cleifion mewnol i blant a phobl ifanc** yng Nghymru, sydd hefyd wedi cael eu hamlygu gan arolygwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad mewn perthynas â gofal cleifion mewnol (Argymhellion 17 a 18) wedi bod yn annigonol.

Bu anhawster hirsefydlog o ran gallu darparu digon o **staff** yn yr uned yn Abergele yng ngogledd Cymru, ac nid yw hyn wedi ei ddatrys o hyd. Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd i helpu i sicrhau y gallai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddychwelyd uned cleifion mewnol gogledd Cymru i'r capasiti y comisiynwyd hi ar ei gyfer, sef 12 gwely, erbyn haf 2018. Flwyddyn yn ddiweddarach, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod gwely ychwanegol ar gael, ond nad yw'r uned wedi ei staffio'n llawn o hyd.

Ymhellach, ers cyhoeddi ein hadroddiad yn 2018, mae **materion ynghylch diogelwch a phryderon ynghylch ansawdd** wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â chyfleuster gofal iechyd Regis yng Nglynebwy a Thŷ Llidiard ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rydym yn cefnogi'r penderfyniad a wnaed i beidio â rhoi plant a phobl ifanc yng nghyfleuster Regis tra bo pryderon parhaus ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir. Rydym hefyd yn cytuno y dylid cyfyngu derbyniadau i Dŷ Llidiard nes ei bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc y bernir eu bod yn peri 'risg rhy uchel' gael eu lleoli yno. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod capasiti cleifion mewnol yng Nghymru yn cael ei leihau ac, o ganlyniad, y gallai rhagor o blant a phobl ifanc gael eu rhoi mewn unedau y tu allan i Gymru, yn aml gryn bellter o'u cartrefi a'u teuluoedd.



**Argymhelliad H:** I ganlyn Argymhellion 17 a 18 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, rydym eisiau gweld camau brys yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwysau o ran galw am ofal cleifion mewnol ledled Cymru. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

- sicrhau bod y gwaith cyfalaf yn Nhŷ Llidiard wedi ei gwblhau erbyn diwedd haf 2019 a bod yr uned mewn sefyllfa i dderbyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio;
- sicrhau bod y materion staffio yn Abergele yn cael eu datrys ar frys, fel bod yr uned mewn sefyllfa i dderbyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niweidio;
- archwilio gyda rhagor o frys y dewisiadau ar gyfer creu gallu ychwanegol i dderbyn cleifion mewnol, yn benodol i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd ar hyn o bryd yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru;
- rhoi trefniadau mwy effeithiol ar waith ar gyfer 'camu i fyny' neu 'gamu i lawr' rhwng gwahanol lefelau o ymyrraeth;
- darparu buddsoddiad cyfalaf i helpu i fwrw ymlaen yn gyflymach â rhai o'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu mwy integredig mewn perthynas ag iechyd meddwl, llesiant a chyfiawnder ieuenctid.

Rydym yn deall bod Cydweithfa'r GIG yn adolygu Fframwaith Comisiynu'r GIG i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol i gleifion mewnol yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, rydym eisiau gweld cynnydd pellach yn digwydd yn gyflymach.

Rydym yn croesawu'r cadarnhad yn llythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Gorffennaf 2019 bod gwaith ar y gweill i edrych ar sut gellir bwrw ymlaen â threfniadau cynllunio a chomisiynu integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Gofynnwn i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i ni am y gwaith hwn erbyn diwedd haf 2019. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at dderbyn copi o'r **adolygiad o leoliadau anabledau dysgu** yn dilyn adroddiad Comisiynydd Plant Lloegr ym mis Mehefin 2019 cyn gynted â phosibl.

### **Gwasanaethau Niwroddatblygiadol**

Rydym yn falch o weld gwasanaethau niwroddatblygiadol newydd ar waith ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, ond credwn fod angen gwelliannau ar frys yn y maes hwn o hyd. Yn benodol, mae angen rhagor o waith i fynd i'r afael â'r **amseroedd aros hir am asesiad**.





Yn ei [dystiolaeth ysgrifenedig](#), dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrthym y bu cynnydd yn y galw mewn cymhariaeth â'r llynedd, gan nodi cynnydd o 56 y cant mewn atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol ym mis Chwefror 2019. Mae'r diweddariad hefyd yn dangos, ar ddiwedd mis Mawrth 2019, bod 1,653 o blant a phobl ifanc yn aros am asesiad niwroddatblygiadol, gyda 1,024 ohonynt wedi aros dros 26 wythnos.

Mae her wirioneddol i wasanaethau niwroddatblygiadol, ac nid ydym yn sicr bod pob Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen yn y gwasanaethau hyn.

**Argymhelliad I:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu Argymhelliad 13 yn llawn yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl mewn perthynas â gwasanaethau niwroddatblygiadol. Law yn llaw â hyn, dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi cynllun clir ynghylch sut bydd yn cynorthwyo Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i ddiwallu anghenion y 40–50 y cant o blant a phobl ifanc yr amcangyfrifir nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer diagnosis ond sydd angen rhywfaint o help, i sicrhau nad yw teuluoedd yn cael eu gadael yn teimlo nad ydynt yn cael cymorth;
- cyhoeddi data rheolaidd ar berfformiad niwroddatblygiadol fel bod rhagor o dryloywder a dealltwriaeth ynghylch a yw Byrddau Iechyd yn cyflawni'r safon amser aros 26 wythnos ar gyfer asesu;
- darparu manylion pellach am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro perfformiad gwasanaethau niwroddatblygiadol, fel na chaiff blaen-lwytho cymorth ar gyfer asesiadau er mwyn cyrraedd y safon amser aros 26 wythnos ar gyfer asesu ei wneud ar draul darparu ymyriadau yn dilyn asesiad;
- cyhoeddi canfyddiadau'r gwaith modelu galw a gallu y mae'n ei wneud i sicrhau bod modelau gwasanaeth niwroddatblygiadol effeithiol ar waith ar draws pob rhan o Gymru.

## 6. Trosglwyddo

Cyhoeddwyd canllawiau trosglwyddo ar gyfer y GIG ym mis Awst 2017. Dylai hyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen i gyfathrebu a gweithio'n hyblyg gyda'r unigolyn ifanc dan ei ofal i sicrhau trosglwyddiad hyblyg wedi ei gynllunio, yn seiliedig ar angen yn unigolyn. Fodd bynnag, nid ydym yn fodlon bod



cynnydd digonol wedi ei ddangos mewn perthynas â'r cyfnod trosglwyddo. Dywedwyd wrthym, er bod y canllawiau trosglwyddo yn glir iawn o ran yr hyn a ddisgwylir, ni allai Llywodraeth Cymru ddangos tystiolaeth o 'welliant gwirioneddol' yn y modd y rheolir trosglwyddiadau.<sup>4</sup>

**Argymhelliad J:** I ganlyn Argymhelliad 19 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, ac o ystyried gwendidau uwch pobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ddewisiadau ar gyfer gwella trosglwyddiadau, gan gynnwys archwilio estyn CAMHS hyd at 25 oed, i ddarparu cyfnod estynedig i bobl ifanc symud i wasanaethau oedolion, yn hytrach na throsglwyddo ar unwaith i wasanaethau iechyd meddwl oedolion pan fyddant yn 18 oed.

## 7. Therapiau seicolegol

Yn yr un modd â Chadeirydd y Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc,<sup>5</sup> rydym yn siomedig na wnaed rhagor o gynnydd mewn perthynas â therapiau seicolegol i blant a phobl ifanc, er bod buddsoddiad ychwanegol wedi ei ddarparu. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn priodoli'r diffyg cynnydd i anallu i **recrwtio** digon o staff i'r gwasanaeth, gan ddweud: 'rydyn ni'n pysgota mewn pwll, ond does dim llawer o bysgod'.<sup>6</sup> Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor o waith yn y maes hwn fel mater o flaenoriaeth.

**Argymhelliad K:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n rhagweithiol gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i sicrhau bod gweithlu CAMHS yn cael ei flaenoriaethu yn y strategaeth gweithlu 10 mlynedd. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am gynlluniau ar gyfer datblygu a chynnal llif o ymarferwyr therapiwtig sydd wedi eu hyfforddi'n ddigonol i ddarparu ymyriadau i blant a phobl ifanc.

Rydym hefyd yn nodi'r consensws bod cyhoeddi a gweithredu **Matrics Cymru** plant a phobl ifanc yn helpu i yrru gwelliannau yn eu blaen. Dywedodd Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru wrthym fod hyn yn 'rhywbeth sydd ei angen yn ddirfawr'.<sup>7</sup>

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 264\], 20 Mehefin 2019](#).

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 6\], 26 Mehefin 2019](#).

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 270\], 20 Mehefin 2019](#).

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 274\], 20 Mehefin 2019](#).



**Argymhelliad L:** I ganlyn Argymhelliad 20 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn plant a phobl ifanc Matrics Cymru erbyn mis Rhagfyr 2019, ochr yn ochr â manylion am sut bydd hyn yn helpu i sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau therapiwtig ar draws y sbectrwm anghenion yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mewn perthynas â meddyginiaeth a rhagnodi, rydym yn cydnabod bod adolygiad cychwynnol wedi ei gynnal mewn ymateb i bryderon ynghylch math penodol o gyffur gwrth-iselder. Rydym yn cydnabod y sicrhad gan eich ymgynghorydd CAMHS bod Byrddau Iechyd yn cadw at ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar ragnodi a defnyddio meddyginiaeth gwrth-iselder i blant a phobl ifanc yng Nghymru.<sup>8</sup> Serch hynny, rydym yn parhau i bryderu ynghylch tueddiadau rhagnodi o ran llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad M:** Mae ein barn fel y'i mynegir yn Argymhelliad 20 o'n hadroddiad Cadernid Meddwl, sef bod angen adolygiad cenedlaethol o dueddiadau rhagnodi ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl, yn ddigyfnewid. Yn absenoldeb adolygiad o'r fath, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach i ni am y mater hwn erbyn mis Rhagfyr 2019.

## 8. Cymorth i grwpiau bregus, yn enwedig plant â phrofiad o ofal

Yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, fe wnaethom nodi ein bod yn arbennig o bryderus ynghylch adroddiadau gan y gwasanaethau plant, gwasanaethau mabwysiadu ac awdurdodau lleol, bod y gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 'ar y dibyn' ac 'mewn argyfwng', a bod lle i ddadlau bod y trefniadau cydweithio rhwng y GIG a llywodraeth leol ar wasanaethau therapiwtig yn 'mynd am yn ôl'.

Nodwn fuddsoddiad Llywodraeth Cymru o £15 miliwn yn y Gronfa Gofal Integredig 'i gynorthwyo gwasanaethau atal ac ymyriadau cynnar ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal', ac rydym yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu cynigion i ddiwallu anghenion eu poblogaethau plant sy'n derbyn gofal.<sup>9</sup> Serch hynny, o gofio mai plant â phrofiad o ofal yw rhai o'r bobl fwyaf agored i

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 281], 20 Mehefin 2019.

<sup>9</sup> Gohebiaeth, Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Gorffennaf 2019.



niwed yn y gymdeithas, rydym yn rhwystredig bod gweithgarwch yn parhau i fod ar y cam 'cynigion' yn unig.

Rydym yn nodi datganiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod gwaith sydd ar y gweill ar Gymorth Cynnar a Chymorth Uwch yn 'cysylltu â'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant a'r rhaglen Ymagwedd Ysgol Gyfan' a bod 'fframweithiau penodol ar y gweill i gael eu datblygu a'u profi cyn diwedd y Rhaglen [Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc] ym mis Hydref 2019'.<sup>10</sup>

**Argymhelliad N: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion – a thystiolaeth – am ffrydiau gwaith y Cyd-grŵp Cynghori Gweinidogol ar ganlyniadau i blant, y rhaglen ymagwedd ysgol gyfan, a'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn gysylltiedig ac yn gweithio law yn llaw i sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol a meddyliol y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn cael eu hasesu, a'u bod yn gallu cael gafael ar gymorth yn brydlon. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad manwl pellach i'r pwyllgor ar hyn, ynghyd ag amserlenni ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Yn y cyfamser, rydym yn dal i bryderu'n fawr am ddarparu cymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl i blant â phrofiad o ofal.**

## 9. Gwaith ieuenctid

Pwysleisiwyd rôl bwysig gwaith ieuenctid o ran cefnogi llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ein hymchwiliad gwreiddiol, ac yn yr ymchwiliad a gynhaliodd y Pwyllgor i waith ieuenctid ar ddechrau'r Cynulliad hwn. Yng ngoleuni hynny, rydym yn croesawu cynnwys cynrychiolydd gwaith ieuenctid yng ngwaith Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cyd-Grŵp Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen. Rydym yn croesawu ymhellach yr adnoddau ychwanegol a roddwyd i waith ieuenctid, ac esboniodd y Gweinidog Addysg ei fod yn ymgais 'i unioni rhai o'r sefyllfaedd ariannol heriol mae gwaith ieuenctid wedi eu hwynebu yn y gorffennol, oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi effaith y gwaith hwnnw'.<sup>11</sup> Rydym yn cytuno â'r Gweinidog Addysg y gall 'gwaith ieuenctid wneud gwahaniaeth enfawr' ym maes llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.<sup>12</sup> Rydym hefyd yn cytuno â

<sup>10</sup> Gohebiaeth, [Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Gorffennaf 2019](#).

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 134\], 20 Mehefin 2019](#).

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 134\], 20 Mehefin 2019](#).



Chadeirydd y Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 'nad yw gwaith ieuencid wedi cael y gydnabyddiaeth angenrheidiol o bosibl'.<sup>13</sup>


**Argymhelliad O:** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, yn ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2020–21, ac mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, bod cyllid digonol yn cael ei ddyrannu i waith ieuencid i gydnabod y rôl hanfodol sydd ganddo i'w chwarae wrth gynorthwyo llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

## 10.Cyllid

Yn olaf, rydym eisiau nodi'n glir ein bod yn croesawu'r buddsoddiad o £7.1 miliwn a [gyhoeddwyd](#) yn gynharach eleni i weithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl. Mae'n ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai rhywfaint o'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ategu llifoedd gwaith presennol, ac nid yw rhywfaint o'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer gwaith gwella CAMHS ar gyfer 2019–20 wedi ei ryddhau i Fyrddau Iechyd eto. Gan hynny, ein bwriad (yn unol ag Argymhelliad 27 yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl), yw i iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc fod yn ganolbwynt i'n sesiwn tystiolaeth lafar ar **Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21**. Gofynnir am wybodaeth berthnasol gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i lywio'r gwaith hwn.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r llythyr hwn ac i'n hargymhellion.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

---

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tystiolaeth lafar, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 8\], 26 Mehefin 2019](#).

